



Nos Iau, 07 Mawrth 2024 – 7.30yh  
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 07 Mawrth 2024** am 7.30 yn Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Cyflwyniad gan Gymuned Di-blastig Betws-y-Coed a'r Fro
5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Materion Cynllunio
9. Materion eraill

**Presennol:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eryl Owain (Is Gadeirydd)  
Geraint Thomas  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)

Anna Brown (Cyngor Cymuned Betws-y-coed)

**Ymddiheuriadau:**

Eifion Davies  
Owen Davis

**Datganiad o fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Minutes of a meeting held on **Thursday 07 March 2024** at 7.30 at Salem Chapel Vestry

1. Welcome and apologies for absence
2. Declaration of interest
3. Confirmation of the minutes from the previous meeting
4. A presentation by Betws-y-Coed and District Plastic Free Community
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Planning Applications
9. Any other business

**Present:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eryl Owain (Deputy Chair)  
Geraint Thomas  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)

Anna Brown (Betws-y-coed Community Council)

**Apologies:**

Eifion Davies  
Owen Davis

**Declaration of interest**

There were no declarations

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **11 Ionawr 2024** fel rhai cywir, Eryl Owain yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

## Gymuned Di-blastig Betws-y-Coed a'r Fro:

Estynnwyd croeso cynnes i Anna Brown o Gyngor Cymuned Betws-y-coed a roddodd sgwrs ddiddorol a phryfoclyd am ymdrechion i gael gwared ar blastig untro yn ein cymunedau.

### Cytunwyd ar y canlynol yn unfrydol:

Mae Cyngor Cymuned Bro Machno yn cytuno i:

- arwain drwy esiampl i wared eu safle o eitemau plastig untro;
- annog mentrau di-blastig, hyrwyddo'r ymgyrch a chefnogi unrhyw ddigwyddiadau;
- enwi cynrychiolydd o'r Cyngor i ymuno â grŵp llywio'r Gymuned Ddi-blastig (gan gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn).

Diolchwyd i Geraint Thomas am wirfoddoli i ymuno â'r grŵp llywio a diolchwyd i Anna am ddod i'r cyfarfod.

## Materion yn codi:

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod yr arwyddion newydd wedi eu dylunio ac mae'r Clerc yn aros am gadarnhad o'r dyddiad gosod.

**Sgipiau:** Adroddwyd bod sgip a drefnwyd ar gyfer Penmachno wedi methu â chyrraedd am fod y Cyngor Sir wedi methu â'i archebu. Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Adran Gwynion y Cyngor Sir ac wedi ceisio archebu sgip arall ar gyfer mis Mawrth.

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod llawer o waith wedi'i wneud yn y Toiled Cyhoeddus:

- Gwaith draenio yng nghefn yr adeilad wedi ei gwblhau i safon uchel
- Diolchwyd i Paul Benar am osod synhwyrdd drws newydd, clo newydd, gosod handlen newydd ar y drws a gosod arwyddion newydd
- Diolchwyd i Justin Taylor am ei waith yn sicrhau bod y drws yn cloi'n iawn
- Diolchwyd i Gareth am ddadflocio'r pibellau
- Roedd Awdurdod y Parc wedi dod i Benmachno i weld y system mynediad digyswllt newydd
- Roedd gostyngiad yn y pris a drafodwyd ar y gost gosod wedi helpu i dalu am estyniad i'r Wi-Fi

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **11 January 2024** meeting were accepted as a true record, proposed by Eryl Owain and seconded by Wil Edwards.

## Betws-y-Coed and District Plastic Free Community:

A warm welcome was extended to Anna Brown from Betws-y-coed Community Council who gave an interesting and thought-provoking talk about efforts to remove single-use plastic in our communities.

### The following was agreed to unanimously:

Cyngor Cymuned Bro Machno agrees to:

- lead by example to rid their community of single-use plastic items;
- encourage plastic-free initiatives, promoting the campaign and supporting any events;
- nominate a representative from the Council to join the Plastic-free Community steering group (with meetings at least twice a year).

Geraint Thomas was thanked for volunteering to join the steering group and Anna was thanked for attending the meeting.

## Matters arising:

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was reported that the new signs have been designed and the Clerk is waiting for confirmation of the installation date.

**Skips:** It was reported that a skip booked for Penmachno had failed to arrive because the County Council had failed to order it. The Clerk had written to the County Council's complaints department and attempted to book another skip for March.

**Public Toilet:** It was reported that lots of work had been carried out at the Public Toilet:

- Drainage work at the back of the building had been completed to a high standard
- Paul Benar was thanked for fitting a new door sensor, a new lock, replacing the handle on the door and affixing new signs
- Justin Taylor was thanked for his work ensuring that the door locks properly
- Gareth was thanked for unblocking the pipes
- The Park Authority had visited to see the new contactless card payment system
- A reduction in price negotiated on the installation cost had helped pay for an extension

cymunedol a batris i gadw'r Wi-Fi i weithio yn ystod toriad pŵer

Penderfynwyd aros am dywydd cynhesach cyn ailosod y llawr tu fewn i'r adeilad.

Penderfynwyd ymchwilio i weld a allai arwydd sy'n hysbysebu siop a chyfleusterau toiled Penmachno fod yn ddefnyddiol yn y maes parcio ar gyfer y llwybrau beic.

**Cerbydau Goryrru:** Adroddwyd bod canlyniadau arolwg cyflymder diweddar yn dangos y broblem ddifrifol o oryrru ym Mhenmachno. Ni chaniateir arwyddion ychwanegol lle mae'r terfyn cyflymder diofyn bellach yn 20mya ond penderfynwyd siarad â'r ysgol.

**Diffibriliwr:** Adroddwyd bod y gwasanaeth ambiwlans yn bwriadu rhoi diffibriliwr sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghwm Penmachno. Mae'r Clerc yn ceisio trefnu hyfforddiant diffibriliwr i'r gymuned.

**Pen y Bryn:** Adroddwyd er gwaethaf cadarnhad nad oes gan CNC gynlluniau i blannu coed ar Foel Pen y Bryn mae pryder am hunan-hadu anochel oni bai bod camau'n cael eu cymryd. Penderfynwyd ysgrifennu at CNC.

**Gwasanaeth Ffôn Symudol:** Adroddwyd bod y cais cynllunio am fast yng nghanol Penmachno wedi cael ei wrthod. Mynegwyd pryderon am yr oedi hir wrth gymeradwyo'r cais cynllunio ar gyfer mast gwasanaethau brys yn y goedwig. Penderfynwyd yn unfrydol trefnu cyfarfod safle gyda'r holl randdeiliaid.

**Trelar wedi'i adael:** Adroddwyd bod y trelar a adawyd yng Nghwm Penmachno wedi'i dynnu.

## Gohebiaeth

**Arogl Olew:** Adroddwyd bod digon o ohebiaeth wedi'i derbyn ynghylch arogl olew. Roedd y Cyngor Cymuned wedi gweithio gyda'r Cyngor Sir ac mae'n ymddangos bod yr arogl wedi mynd am y tro

**Blwch Ffôn Coch:** Adroddwyd bod tiffeddiannwr lleol wedi cynnig prynu blwch ffôn coch i'w roi yn yr un lle â'r blwch a dynnwyd yn ddiweddar gan BT. Trafodwyd pwnc Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyda'r tiffeddiannwr a mynegwyd diolch o galon am yr ystum caredig hwn i'r gymuned.

to the community Wi-Fi and batteries to keep the Wi-Fi working during a power cut.

It was decided to wait for warmer weather before replacing the floor inside the building.

It was decided to investigate whether a sign advertising Penmachno's shop and toilet facilities might be useful at the car park for the mountain bike trails.

**Speeding Vehicles:** It was reported that results of a recent speed survey demonstrate the serious problem of speeding in Penmachno. Extra signs are not allowed where the default speed limit is now 20mph but it was decided to talk to the school.

**Defibrillator:** It was reported that the ambulance service intends to put a publicly-available defibrillator in Cwm Penmachno. The Clerk is trying to arrange defibrillator training for the community.

**Pen y Bryn:** It was reported that despite confirmation that NRW have no plans to plant trees on Moel Pen y Bryn there is concern about inevitable self-seeding unless steps are taken. It was decided to write to NRW.

**Mobile Phone Reception:** It was reported that the planning application for a mast in the centre of Penmachno had been refused. Concerns were expressed about the long delay in approving the planning application for an emergency services mast in the forest. It was decided unanimously to arrange a site meeting with all stakeholders.

**Abandoned Trailer:** It was reported that the abandoned trailer in Cwm Penmachno had been removed.

## Correspondence

**Smell of Oil:** It was reported that plenty of correspondence had been received regarding the smell of oil. The Community Council had worked with the County Council and the smell appears to have gone for the time being.

**Red Telephone Box:** It was reported that a local landowner had kindly offered to purchase a red phone box to replace the box recently removed by BT. The subject of Public Liability Insurance had been discussed and heartfelt thanks were expressed for this kind gesture to the community.

**Negeseuon Dienw drwy'r Wefan:** Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn nifer o negeseuon dienw. Pwysleisiwyd y dylai aelodau'r cyhoedd adael manylion cyswllt fel y gall y Clerc ymateb iddynt ac y bydd ceisiadau i aros yn ddienw yn cael eu dilyn yn llym.

**Cloddio Beddau:** Adroddwyd bod cloddwyr beddau wedi bod yn gadael pridd wedi'i dynnu o'r ddaear mewn twmpath wrth berimedr y fynwent. Penderfynwyd newid rheolau'r fynwent a mynnu bod cloddwyr beddau yn symud pridd o'r safle.

## Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

## Materion Cynllunio

Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau newydd i'w hystyried.

## Materion eraill

**Draeniau a thyllau:** Adroddwyd bod nifer fawr o ddraeniau wedi blocio a thyllau yn y ffordd wedi eu hadrodd i'r Cyngor Sir yn dilyn gaeaf eithriadol o wlyb.

**Clustffonau Cyfieithu ar y Pryd:** Penderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu am atgyweirio'r clustffonau yn y Shiloh.

**Car wedi'i Gadael:** Adroddwyd bod ymdrechion wedi'u gwneud i symud car wedi'i adael o'r Waen.

**Stablau a Manège:** Mynegwyd pryder am gyflwr y stablau a hefyd y manège i'r de o Pen y Ffridd. Penderfynwyd gwneud ymholiadau i ddod o hyd i'r perchnogion.

**Cynllun Ffermio Cynaliadwy:** Mynegwyd pryder am Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru. Penderfynwyd ysgrifennu at y Llywodraeth yn mynegi pryder a gofyn i Aelodau'r Senedd ailystyried y cynlluniau.

## Cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal nos Iau, 09 Mai 2024, 7.30 yn Ffestri Capel Salem.

**Anonymous Messages via the Website:** It was reported that the Clerk had received a number of anonymous messages. It was stressed that members of the public should leave contact details so that the Clerk can reply to them and that requests to remain anonymous will be strictly observed.

**Grave Digging:** It was reported that grave diggers had been leaving soil removed from the ground in mound at the perimeter of the cemetery. It was decided to change the cemetery rules and require grave diggers to remove soil from the site.

## Financial Report

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

## Planning

It was reported that there were no new applications to consider.

## Other matters

**Drains and potholes:** It was reported that a large number of blocked drains and potholes had been reported to the County Council following an exceptionally wet winter.

**Simultaneous Translation Headsets:** It was decided that the Community Council will pay for repairs to the headsets at the Shiloh.

**Abandoned Car:** It was reported that attempts had been made to have an abandoned car removed from Y Waen.

**Stables and Manège:** Concern was expressed about the state of the stables and also the manège to the south of Pen y Ffridd. It was decided to make enquiries to find the owners.

**Sustainable Farming Scheme:** Concern was expressed about the Welsh Government's proposed Sustainable Farming Scheme. It was decided to write to the Government expressing concern and asking Senedd Members to reconsider the proposals.

## Next meeting

The annual meeting of the Council will be held on Thursday 09 May 2024, 7.30 at Capel Salem Vestry.